

Crynodeb

Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol (AQR) yn rhoi trosolwg o system ansawdd academiaidd y Brifysgol a'i gweithrediad, gan gynnwys y camau a gymerwyd i sicrhau ei bod yn gwella'n barhaus. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu newidiadau sefydliadol sylweddol yn ymwneud ag ansawdd academiaidd yn ystod blwyddyn academiaidd 2021/22, ac aliniad y system ansawdd academiaidd â phwyntiau cyfeirio allanol.

Prif ddiben yr Adroddiad Ansawdd Academiaidd yw rhoi sicrwydd i'r Senedd a'r Cyngor ar safonau academiaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr ac mae canlyniadau'r system ansawdd flynyddol yn dystiolaeth o hyn.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y safonau academiaidd a'r risgiau ansawdd sy'n cyd-fynd â chofrestr risg y Brifysgol. Gan fod cyflwyniad y risgiau yn AQR eleni wedi'i ailfformatio i gyd-fynd â chofrestr risg y Brifysgol, nid yw'n bosibl rhoi cymhariaeth uniongyrchol ag adroddiadau blaenorol.

Mae'r adroddiad yn cadarnhau:

- mae'r Brifysgol yn parhau i alinio a bodloni gofynion allanol.
- caiff safonau'r dyfarniadau eu gosod a'u cynnal yn briodol.
- mae'r Brifysgol wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch profiad myfyrwyr drwy:
 - cryfhau'r trefniadau ar gyfer craffu ar adborth myfyrwyr a goruchwyllo'r camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i adborth myfyrwyr; a
 - symud ymlaen â chyflwyno prosiectau i wella profiad myfyrwyr.

Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod, er y bu gwelliant ymylol ym mhrofiad y myfyrwyr, fel y dangosir gan ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) 2022, mae'n parhau i fod yn ofynnol i'r Brifysgol gyflwyno cynlluniau gweithredu i CCAUC. Mae cynnydd sylweddol pellach i'w wneud i sicrhau profiad myfyrwyr sy'n rhagorol o ran addysg ac o safon gyson uchel i bawb.

Mae'r fframwaith sicrwydd academiaidd, a ddatblygwyd gyntaf yn 2021/22 ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, wedi'i ddiweddarau. Mae'n cadarnhau'r ffynonellau tystiolaeth i'w defnyddio i lywio'r datganiadau o sicrwydd blynyddol y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu cyflwyno i CCAUC. Dylai'r Cyngor allu cyflwyno ei ddatganiadau blynyddol o sicrwydd yn hyderus i CCAUC.

Mae'r Adroddiad Ansawdd Academiaidd yn ddogfen ategol i'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol: mae'r cyntaf yn rhoi sicrwydd i'r Senedd a'r Cyngor; mae'r ail yn gwerthuso gweithrediad yr [is-strategaeth addysg a myfyrwyr](#) a'r gweithgareddau sy'n cael eu dilyn i wella profiad y myfyriwr.

Adran 1: Sicrwydd a Risg

1.1 Safonau academiaidd a risgiau ansawdd:

Risg	Adran AQR	Sgôr Risg Net
Nid yw'r Brifysgol yn bodloni: y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch; disgwyliadau, arferion craidd ac arferion cyffredin Côt Ansawdd y DU; y safonau a'r canllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol ym Maes Addysg Uwch Ewrop	Adran 3: Pwyntiau Cyfeirio Allanol	5
Nid yw safonau'r dyfarniadau wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol	Adran 4: Safonau Academaidd	10
Nid yw'r bwlch dyfarnu Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael ei ddileu	Adran 4: Safonau Academaidd	12
Mynegwyd pryderon difrifol am safonau uniondeb academiaidd	Adran 4: Safonau Academaidd	8
Nid yw partneriaethau addysgol yn rhoi profiad addysgol o ansawdd uchel i fyfyrwyr	Adran 5: Darpariaeth Addysg	12
Ystyrir bod ansawdd y ddarpariaeth yn annigonol gan randdeiliaid	Adran 6: Profiad y Myfyrwyr	15

Mae'r asesiad risg ar ddiwedd pob Adran o'r adroddiad yn amlinellu'r ffactorau risg, y sefyllfa bresennol, a chamau lliniaru.

1.2 Fframwaith Sicrwydd Academaidd

Datganiad Sicrwydd CCAUC	Adran AQR	Ffynonellau Tystiolaeth	Sylwadau/Materion a Nodwyd
<p>1. Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn adroddiad sy'n ystyried yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi'i greu a'i roi ar waith fel bo'n briodol, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.</p>	<p>Adran 3: Pwyntiau Cyfeirio Allanol</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi derbyn adroddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd - yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol.</p> <p>Cymeradwydd y Cyngor y cynllun gweithredu Adolygiad QER, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr.</p> <p>Cynllun gweithredu Adolygiad QER yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol gan ASQC. Mae ASQC wedi cadarnhau (Tachwedd 2022) bod yr holl gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu Adolygiad QER wedi'u cwblhau. Mae'r cynllun gweithredu ar gau (gweler Adran 3.1).</p>	<p>Dim; mae'r cynllun gweithredu ar gau</p>
<p>2. Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r methodolegau a ddefnyddiwyd yn sail i wella profiad academaidd a deilliannau myfyrwyr yn gadarn a phriodol.</p>	<p>Adran 5: Darpariaeth Addysg</p>	<p>Mae'r Brifysgol yn bodloni gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) Rhan 1 o ran sicrhau ansawdd mewnol, a gofynion rheoleiddiol sylfaen perthnasol Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru, gan gynnwys gofynion Côt Ansawdd y DU fel y cadarnhawyd gan QER 2020.</p> <p>Mae rheoliadau a pholisïau'r Brifysgol yn destun craffu rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn</p>	<p>Mae Adroddiad Adolygiad a Gwelliant Blynyddol yr Ysgol (ARE) wedi nodi angen i wella cwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael i gefnogi gweithgareddau sicrhau ansawdd.</p> <p>Drwy gydol 2021/22, adroddwyd am amrywiaeth o faterion ar draws pob math o drefniadau partneriaeth addysg yng Nghaerdydd i ASQC; dim ond ar yr adeg pan oedd angen</p>

			<p>parhau i alinio â phwyntiau cyfeirio allanol. Mae'r rhestr o reoleiddio ac adolygiad o bolisiâu yn cael ei oruchwylio gan ASQC.</p> <p>Cymeradwywyd Disgwyliadau Sefydliadol ar gyfer dylunio rhaglenni i'w defnyddio yn 2021/22 sy'n egluro'r gofyniad lleiaf y mae angen ei fodloni i gymeradwyo rhaglenni gradd newydd.</p> <p>Mae ASQC wedi sefydlu Is-bwyllgor Partneriaethau Addysg sy'n gyfrifol am adolygu ansawdd a safonau academaidd partneriaethau addysg sy'n dwyn credydau.</p>	<p>gweithredu i ddiogelu profiad y myfyriwr y daeth y materion yn hysbys. Mae ASQC wedi ail-gadarnhau'r angen i wella a chryfhau'r oruchwyliaeth a'r gefnogaeth ar gyfer rheolaeth sefydliadol effeithiol ar yr addysg a ddarperir trwy bartneriaethau academaidd.</p> <p>Bydd yr Is-bwyllgor Partneriaethau Addysg yn goruchwylio datblygiad Polisi Partneriaeth Addysgol a fydd yn gwella ac yn disodli'r polisiâu presennol a ganlyn: Astudio Dramor; Dysgu ar Leoliad; a Darpariaeth Gydweithredol.</p>
		<p>Adran 6: Profiad y Myfyriwr</p>	<p>Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyriwr a sefydlwyd yn 2021/22 yn adrodd i'r Senedd, i roi cyfeiriad strategol a chynghori'r Brifysgol ar bob mater sy'n ymwneud ag addysg a phrofiad myfyriwr.</p> <p>Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd 2021, cymeradwywyd achos busnes tair blynedd a oedd yn blaenoriaethu gweithgareddau o'r Is-Strategaeth Addysg a Myfyriwr. Bwrdd Portffolio yn cynnig trosolwg o'r gweithredu a'r cynnydd a adroddir i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyriwr. Cynnydd i'w grynhoi yn yr Adroddiad Ansawdd Blyneddol.</p>	<p>Dangosodd canlyniadau NSS welliant yn 2022, fodd bynnag, mae 8 dangosydd yn sylweddol is na'r meincnod, ac roedd CCAUC yn mynnu bod 7 cynllun pwnc yn cael eu cyflwyno.</p> <p>Gwella data i roi gwell syniad am brofiad myfyriwr sy'n cael ei ddatblygu yn ystod 2022/23.</p> <p>Mesurau llwyddiant i'w cadarnhau gan y Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyriwr. Wedi'i drafod yn y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2022 a dadansoddiad pellach i'w ystyried ym mis Ionawr 2023.</p>

			<p>Proses Adolygiad a Gwelliant Blynyddol (ARE) a ddefnyddir gan ysgolion i adolygu boddhad myfyrwyr, rhaglenni gradd a chanlyniadau asesu a datblygu cynlluniau gweithredu ysgolion.</p> <p>Sefydlu Grŵp Goruchwylio Perfformiad Addysg i graffu ar ddata arolwg profiad myfyrwyr (NSS, PTES, PRES) a chynlluniau gweithredu ysgol/pwnc.</p> <p>Gweithredir gweithdrefn werthuso a monitro newydd o fis Mehefin 2022.</p> <p>Mae'r adroddiad Safbwynt Myfyrwyr gan Undeb y Myfyrwyr yn cynnig ffynhonnell ychwanegol o adborth gan fyfyrwyr, gan nodi themâu a materion allweddol y mae Undeb y Myfyrwyr yn ystyried y gellid eu gwella neu eu cyflwyno er budd profiad y myfyrwyr.</p>	<p>Mae'r tîm archwilio mewnol yn adolygu'r broses ar gyfer cofnodi a chyfathrebu marciau asesu a chadarnhau marciau mewn Byrddau Arholi i fynd i'r afael â'r pryder ynghylch y cynnydd mewn gwallau marciau ar drawsgrifiadau. Datblygir cynllun i fynd i'r afael â gwallau marcio ar ôl derbyn yr adroddiad archwilio mewnol.</p>
3.	Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.	Adran 4: Safonau Academaidd	<p>Mae prifysgolion yng Nghymru a Lloegr i gyhoeddi datganiad yn ymrwymiad i ddiogelu gwerth graddau'r DU, ac i gael safonau academaidd tryloyw, cyson a theg. Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi ei datganiad o'i chanlyniadau graddau, a gymeradwywyd gan y Cyngor. Diweddariad i'w gyhoeddi yn 2022/23.</p>	<p>Cyflwynodd y Brifysgol, ynghyd â phrifysgolion eraill, rwyd ddiogelwch i gefnogi'r egwyddor na ddylai unrhyw fyfyrwr fod dan anfantais yn ystod y cyfnod o darfu sy'n deillio o'r pandemig. Arweiniodd cymhwyso'r rhwyd ddiogelwch at gynnydd yng nghyfran y graddau dosbarth cyntaf yn 2019/20 a 2020/21, ond cynnydd llai na'r sector.</p>

			<p>Mae'r Brifysgol yn adolygu ei chanlyniadau gradd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion a nodwyd yn ei Hadroddiad Ansawdd Blynyddol (AQR), gan gynnwys yr adolygiadau a gynhelir gan ysgolion trwy'r broses Adolygiad a Gwelliant Blynyddol (ARE).</p> <p>Mae adborth a dderbyniwyd gan arholwyr allanol yn rhoi sicrwydd sylweddol ynghylch safonau academiaidd dyfarniadau ac mae proffil canlyniadau gradd yn parhau i gyd-fynd â sector y DU. Mae ASQC yn derbyn adroddiad blynyddol ar y themâu a nodwyd o adroddiad yr arholwyr allanol ac, os yw'n briodol, caiff camau i'w cymryd eu cadarnhau.</p> <p>Crëwyd rôl newydd Ymgynghorydd Allanol ar gyfer Safonau Academiaidd, a byddant yn recriwtio yn ystod hydref 2022. Pwrpas y rôl ymgynghorol yw cynnig craffu allanol a chyngor arbenigol ar ganlyniadau graddau'r Brifysgol, a phrosesau sicrhau ansawdd a safonau academiaidd ar lefel sefydliadol.</p>	<p>Mae cyfran y graddau dosbarth cyntaf yn 2021/22 wedi gostwng i 29%; islaw'r lefel cyn y pandemig, sy'n annisgwyl gan fod y rhwyd ddiogelwch wedi cael effaith weddilliol ar ganlyniadau yn 2021/22. Felly, cynhelir dadansoddiad pellach i ddeall a nodi'n well y ffactorau achosol sy'n ymwneud â'r newid ym mhroffil canlyniadau gradd. Rydym yn parhau i fod yn hyderus nad oes unrhyw bryderon ynghylch safonau academiaidd y dyfarniadau a ategir gan adborth ac adroddiadau gan arholwyr allanol.</p> <p>Mae bwlch sylweddol rhwng canlyniadau gradd da (cyntaf a 2:1) myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig y DU a myfyrwyr gwyn y DU. Mae'r Brifysgol wedi cytuno y bydd y camau a gymerir drwy ei phrosiect Addysg Gynhwysol yn cyfrannu at ddileu'r bwlch dyfarnu Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.</p> <p>Bydd algorithmau gradd y Brifysgol yn cael eu hadolygu yn 2022/23 gan gyfeirio at Eqwyddorion Dylunio Algorithm Effeithiol sector y DU.</p>
--	--	--	---	---

4.	Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y deialog blynyddol rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, wedi craffu ar ganlyniadau'r arolwg myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u creu a'u rhoi ar waith, mewn partneriaeth â'r corff myfyrwyr.	Adran 6: Profiad y Myfyrwyr	Mae'r adroddiad Barn y Myfyrwyr gan Undeb y Myfyrwyr yn nodi themâu a materion allweddol y mae Undeb y Myfyrwyr yn ystyried y gellid eu gwella neu eu cyflwyno er budd profiad y myfyrwyr yn cael ei ystyried gan y Cyngor ynghyd ag ymateb y Brifysgol.	O 2022/23, bydd Undeb y Myfyrwyr yn cyflwyno 'Barn byr y Myfyrwyr' yn ystod y flwyddyn er mwyn gwneud yn siŵr bod materion a nodir gan fyfyrwyr yn cael sylw'n fwy amserol.
5.	Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn copi o'r cytundeb perthynas rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, a chopi o'r siarter myfyrwyr, ac mae'r naill a'r llall wedi cael eu hadolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf.	Adran 3: Pwyntiau Cyfeirio Allanol	Hysbyswyd y Cyngor bod y Cytundeb Perthynas rhwng Prifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr, gan gynnwys Siarter y Myfyrwyr wedi'u hadolygu'n flynyddol . Cymeradwywyd mân newidiadau i'r Cytundeb Perthynas a Siarter y Myfyrwyr gan y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Myfyrwyr ym mis Hydref 2022.	
6.	Mae gan y corff llywodraethu drefniadau effeithiol i oruchwylio canlyniadau gradd ac uniondeb academaidd.	Adran 3: Pwyntiau Cyfeirio Allanol	Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i Siarter Gonestrwydd Academaidd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch . Mae'r siarter hwn yn ceisio bod yn sail y gall prifysgolion adeiladu arni i ddatblygu eu polisïau a'u harferion eu hunain a mapio i sicrhau cysondeb. Mae'r Siarter hon yn cynrychioli ymrwymiad sector cyfan addysg uwch y DU i hyrwyddo uniondeb academaidd a gweithredu yn erbyn camymddygiad academaidd.	Mae camymddygiad academaidd yn broblem gynyddol ac yn fygythiad i enw da addysg uwch ledled y byd. Mae amrywiaeth eang o ffurfiau gan gynnwys defnyddio melinau traethodau a gradd, llên-ladrad, cydgyllwynio rhwng myfyrwyr a thystysgrifau cymhwyster wedi'u ffugio neu eu newid. Mae'r Brifysgol wedi nodi'r angen i wella'r cyngor a roddir i fyfyrwyr ynghylch uniondeb academaidd a

			<p>Mae'r Brifysgol yn bodloni gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru, ac mae gweithdrefnau'r Brifysgol wedi'u mapio ac yn cyd-fynd â Fframwaith Arfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).</p>	<p>bydd yn un o'r blaenoriaethau y bydd y Prosiect Ailystyried Asesu yn mynd i'r afael ag ef.</p>
		<p>Adran 4: Safonau Academaidd</p>	<p>Mae'r Brifysgol yn adolygu ei chanlyniadau gradd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion a nodwyd yn ei Hadroddiad Ansawdd Blynyddol (AQR), gan gynnwys yr adolygiadau a gynhelir gan ysgolion trwy'r broses Adolygiad a Gwelliant Blynyddol (ARE).</p>	<p>Bu cynnydd yn nifer yr achosion o gamymddygiad academaidd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Cafodd staff gyngor gan y Fframwaith Dysgu Cyfunol 2021/22 ar gynllunio asesiadau i leihau'r risg o gamymddygiad academaidd, fodd bynnag, bu cynnydd pellach yn nifer yr achosion. Sylw pellach i'w roi i'r cynnydd yn nifer yr achosion o gamymddygiad academaidd drwy'r Prosiect Ailystyried Asesu, yn enwedig o ran gwella'r cyngor a roddir i fyfyrwyr.</p>